Cyfarfod Cynllunio Cyfiawnder Cymdeithasol y Sector Gwirfoddol

13 Hydref 2021, 10.15am tan 11.45am

Nodiadau

Mynychwyr

- David Cook, CGGC
- Ben Lloyd, CGGC
- Lucy Wilkins, CGGC
- Hayley Richards, Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru
- Alun Evans, Cyngor Ar Bopeth Cymru
- Hadassah Radway, Race Council Cymru
- Peter Williams, Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru
- Susie Ventris Field, Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru
- Rhian Stangroom-Teel, Leonard Cheshire
- Karen Balmer, Groundwork Gogledd Cymru
- Chris Johnes, Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau
- Noreen Blanluet, Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru
- Gethin Rhys, Cytûn
- Cadi Cliff, Canolfan Cydweithredol Cymru
- Sarah Germain, Fareshare Cymru
- Joshua Reeves, Leonard Cheshire
- Bethan Edwards, Marie Curie
- Jane Fenton-May, Cynulliad Merched Cymru

Portffolio'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

Nododd Jane y mater ynghylch trais yn y gymuned a cham-drin domestig.

Nododd Gethin fod angen i'r grŵp ddewis pynciau agenda gan gynnwys cwestiynau penodol i sicrhau ymrwymiadau a gweithrediadau gan y Gweinidog.

Trafodaeth ynghylch materion i'w codi yn ystod y Cyfarfod Gweinidogol cychwynnol

- Ymhlith y pynciau a bwysleisiwyd roedd:
- Y Bil Partneriaeth Gymdeithasol
- Hawliau Dynol Cymru
- Materion ynghylch bancio ar gyfer mudiadau sector gwirfoddol – heb ei ddatganoli ond yn rhan o bortffolio'r Gweinidog
- Cyd-gynhyrchu fel llinyn trwy holl waith y portffolio
- Cyfnod Treialu Incwm Sylfaenol Cyffredinol
- Creu swydd Comisiynydd Pobl Anabl
- Cynhwysiant Digidol

- Sicrhau bod y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn cael yr effaith gywir
- Plismona a diogelwch cymunedol
- Hawliau cymunedol, hawliau i geisio, asedau cymunedol, grymuso cymunedol
- Tlodi – tlodi plant, tlodi tanwydd, tlodi bwyd – yr angen am Gynllun Gweithredu ar gyfer Mynd i'r Afael â Thlodi

Agenda arfaethedig ar gyfer y Cyfarfod Gweinidogol cychwynnol

- Diweddariad ar y Bil Partneriaeth Gymdeithasol (dim papur)
- Plismona a diogelwch cymunedol (papur - Jane a Hadassah i anfon diweddariadau at Ben)
- Galwad am Strategaeth Wrth-dlodi unigol (dim papur)

Cynhwysiant digidol a fframwaith hawliau dynol i gael eu blaenoriaethu ar gyfer cyfarfod cynllunio a gynhelir yn y dyfodol.

Unrhyw Fater Arall

Pwysleisiodd Cadi y gwahoddiad i ymuno â Chynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru - https://www.digitalcommunities.gov.wales/cy/rhwydwaith-cynghrair-cynhwysiant-digidol-cymru/

Camau Gweithredu:

Dosbarthu testun y Bil Partneriaeth Gymdeithasol ac ymateb CGGC

- *Chris a Gethin i rannu profiadau o'r anawsterau y mae eu haelodau wedi'u profi wrth ddefnyddio banciau a Swyddfeydd Post yn ddiweddar.*
- *Dosbarthu'r adroddiad Hawliau Dynol* - https://llyw.cymru/cryfhau-hyrwyddo-cydraddoldeb-hawliau-dynol-yng-nghymru
- *CGGC i ymgynghori â Stefan neu Ellie o Glymblaid Gwrth-dlodi ynghylch deunydd ar gyfer strategaeth wrth-dlodi*
- *Jane a Hadassah i anfon deunydd at Ben ar gyfer papur plismona a diogelwch cymunedol.*